



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

10am 26 Medi 2023

Cyfarfod Cynhadledd Fideo

Yn bresennol:

Claire Bevan (Cadeirydd)

Julia Evans

Chris Knight

David Powell

Hefyd yn bresennol:

Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Kelly Davies, Prif Swyddog Gweithredu

Katie Holliday, Pennaeth Cyllid ac Adnoddau

TIAA:

Helen Cargill

Archwilio Cymru

Helen Goddard

Ymddiheuriadau:

Dim

1 Cyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn benodol i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiynydd ar gyfer 2022-23.

2 Cyfrifon Blynyddol Cyflwyno Cyfrifon Blynyddol 2022-23

i) Papur Cyflwyno

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y papur eglurhaol. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr aelodau wedi darllen y papur a dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau wrth y pwyllgor y byddai'n ateb unrhyw gwestiynau neu'n rhoi eglurhad pellach pe bai angen.

Rhoddodd Helen Goddard ddiweddiariad ar yr adran yn y papur a oedd yn mynd i'r afael â'r ffaith nad oes gan y Comisiynydd fformat cyfrifyddu penodol sy'n nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol.

Cafodd y pwyllgor wybod bod yr Archwilydd Cyffredinol, yn ystod 2022-23, wedi ailedrych ar y mater ac wedi ymgynghori â phartion perthnasol eraill fel y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r datganiad o gyfrifoldeb yn cael ei ddiweddarau, a fydd yn cadarnhau bod barn wedi'i ffurfio bod y cyfarwyddiadau cyfrifon yn mynnu'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys adroddiad atebolrwydd ac adroddiad taliadau ar gyfer cyrff Llywodraeth Ganolog i gydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gadarnhau bod y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Dywedwyd wrth y pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn diwygio cyfeiriad cyfrifon y Comisiynydd, ac y byddai'n cael ei ddarparu maes o law.

Nododd y pwyllgor gynnwys y papur eglurhaol.

ii) Cyfrifon Blynyddol 2023

Trafododd y pwyllgor yr adroddiad blynyddol a chanolbwyntiodd y sgwrs ar yr Adroddiad Taliadau. Trafododd y pwyllgor y data cyflog cyfartal yn yr adroddiad a gofynnodd hefyd am sicrwydd ynghylch tarddiad y data pensiynau yn yr adran hon. Hysbyswyd y pwyllgor bod y data wedi ei ddarparu i'r Comisiynydd gan Swyddfa'r Cabinet.

Canmolodd y pwyllgor y Comisiynydd a'r tîm ar ansawdd yr adroddiad.

3 Archwiliad Allanol – Archwilio Cymru

Adroddiad a Llythyr Rheoli'r Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Rhoddodd Helen Goddard drosolwg o uchafbwyntiau'r adroddiad archwilio a dywedodd fod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun, a hysbyswyd y Comisiynydd a'r pwyllgor

nad oedd unrhyw bryderon i dynnu sylw atynt cyn llofnodi'r cyfrifon. Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad.

Roedd y pwyllgor wedi cael gwybod cyn y cyfarfod bod y ffi archwilio sylfaenol ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd gweithredu IFRS16 ac IAS315, a phwysau chwyddiant. Dywedodd Helen wrth y pwyllgor fod pum diwrnod archwilio yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn y cynllun yn cael eu codi ar y Comisiynydd oherwydd bod gweithredu safon ISA315 ddiwygiedig yn cymryd mwy o amser na'r bwriad gwreiddiol, yr effaith a gafodd symud swyddfa'r Comisiynydd ar y datganiadau ariannol, a gwaith ychwanegol a wnaed gan yr archwilydd TG i gael gwell dealltwriaeth o amgylchedd gweithredu'r Comisiynydd. Dywedodd y Pennaeth Cyllid wrth y Pwyllgor fod y taliadau ychwanegol yn rhesymol ac mai'r amcangyfrif o'r anfoneb yw £18,450.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi yn ystod cyfarfod y Pwyllgor a fyddai'n atal y Comisiynydd rhag llofnodi'r cyfrifon.

Nodwyd bod y broses archwilio wedi mynd rhagddi'n ddidrafferth, a diolchwyd i dimau'r Comisiynydd am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod. Ychwanegodd y Cadeirydd ei diolch.

Cymeradwyodd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd Gyfrifon Blynyddol 2022-23.

4. Unrhyw fater arall

Nid oes dim i'w nodi.